**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Buffy Williams AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru Bae
Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

12 Mawrth 2025

Annwyl Buffy,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 18 Chwefror, yn gofyn am wybodaeth am y Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg fel sail i'r gwaith o asesu hyd a lled yr ymchwiliad sydd ar y gweill gennych. Rwy'n croesawu diddordeb y Pwyllgor yn y maes hwn.

Fel yr amlinellais yn fy natganiad ysgrifenedig, rwy'n ymwybodol, yn sgil fy nhrafodaethau gydag athrawon, arweinwyr a chynorthwywyr addysgu, fod pwysau cynyddol ar y proffesiwn, a bod disgwyliadau cymdeithas o'r hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gan ein hysgolion wedi newid.

Ar hyn o bryd mae fy swyddogion wrthi'n gweithio gyda CLlLC ac awdurdodau lleol/llywodraethwyr fel cyflogwyr, ynghyd â'r undebau addysg, drwy ein fforymau presennol i ddatblygu'r fframwaith ar gyfer y cynllun. Rwy'n rhagweld y byddaf mewn sefyllfa i rannu hyn yn ehangach yn ystod tymor yr haf er mwyn llywio trafodaeth agored gyda'r proffesiwn a rhanddeiliaid allweddol eraill. Yn amodol ar gytundeb pawb, rwy'n gobeithio gallu cyhoeddi'r cynllun yn 2026.

Byddwn yn hapus i rannu rhagor o wybodaeth gydag aelodau'r Pwyllgor yn ystod tymor yr haf.

Yn gywir

Lynne Neagle

**Lynne Neagle AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.